# Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

**2014 dccc 3**

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer gweithredu mewn perthynas â cheffylau sydd mewn mannau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon neu sydd ar dir arall heb ganiatâd, ac mewn cysylltiad â hynny. [27 Ionawr 2014]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## 1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol ymafael mewn ceffylau, cadw ceffylau a gwaredu ceffylau sydd—

(a) mewn mannau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon, neu

(b) ar dir arall heb ganiatâd meddiannydd y tir.

## 2 Pŵer awdurdod lleol i ymafael mewn ceffylau

(1) Caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw briffordd, neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall, yn ardal yr awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod y ceffyl yno heb awdurdod cyfreithlon.

(2) Caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw dir arall yn ardal yr awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol i gredu—

(a) yn achos tir y mae'r awdurdod lleol yn feddiannydd arno, bod y ceffyl yno heb ganiatâd yr awdurdod lleol, neu

(b) yn achos tir arall yn ardal yr awdurdod lleol, bod y ceffyl yno heb ganiatâd meddiannydd y tir a bod y meddiannydd yn caniatáu i'r awdurdod lleol ymafael ynddo a'i gadw.

## 3 Hysbysiadau ynghylch ymafael etc.

(1) Rhaid i awdurdod lleol, o fewn 24 awr i ymafael mewn ceffyl o dan adran 2, osod mewn lle amlwg yn y man yr ymafaelwyd ynddo, neu gerllaw'r man hwnnw, hysbysiad ysgrifenedig—

(a) yn datgan yr ymafaelwyd yn y ceffyl a'r dyddiad a'r amser yr ymafaelwyd ynddo, a

(b) yn rhoi manylion ynghylch sut y gellir cysylltu â'r awdurdod lleol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ymafael mewn ceffyl o dan adran 2, gymryd camau rhesymol i ddarganfod pwy yw perchennog y ceffyl.

(3) Rhaid i awdurdod lleol, o fewn 24 awr i ymafael mewn ceffyl o dan adran 2, roi hysbysiad ysgrifenedig i—

(a) cwnstabl, a

(b) os ymddengys i'r awdurdod lleol fod person yn berchennog y ceffyl neu'n gweithredu ar ran y perchennog mewn perthynas â'r ceffyl, y person hwnnw.

(4) Pan fo awdurdod lleol yn darganfod, o fewn y cyfnod o 7 niwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod yr ymafaelir yn y ceffyl o dan adran 2, mai person na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig iddo o dan is-adran (3)(b) yw perchennog y ceffyl, rhaid i'r awdurdod lleol, o fewn 24 awr, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person hwnnw.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (3) neu (4) fod yn ddyddiedig a chynnwys—

(a) disgrifiad byr o'r ceffyl,

(b) datganiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r man yr ymafaelwyd yn y ceffyl, a

(c) manylion ynghylch sut y gellir cysylltu â'r awdurdod lleol.

(6) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (3)(b) neu (4) ddatgan hefyd—

(a) pam yr ymddengys i'r awdurdod lleol mai'r derbynnydd yw perchennog y ceffyl neu ei fod yn gweithredu ar ran y perchennog mewn perthynas â'r ceffyl, a

(b) effaith gweithredu adran 5 mewn perthynas â'r ceffyl (gan gynnwys pryd y bydd y pwerau a roddir gan is-adran (3) o'r adran honno yn dod ar gael).

(7) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (3)(a) ddatgan hefyd pwy y rhoddwyd hysbysiad iddo o dan is-adran (3)(b) mewn perthynas â'r ceffyl.

## 4 Costau ymafael etc.

(1) Mae perchennog ceffyl yr ymafaelir ynddo gan awdurdod lleol o dan adran 2 yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol gostau a dynnir yn rhesymol wrth ymafael yn y ceffyl a'i gadw ac wrth ei fwydo a'i gynnal tra bo'n cael ei gadw.

(2) Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddychwelyd y ceffyl hyd nes y bydd y costau a dynnwyd yn y fath fodd wedi eu talu.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r perchennog sy'n datgan y swm y mae'r awdurdod lleol o'r farn bod y perchennog yn atebol i'w dalu o dan is-adran (1) ac yn cynnwys esboniad o—

(a) sut y pennwyd y swm hwnnw, a

(b) yr hawl i gyfeirio anghydfod i'w ddatrys gan Weinidogion Cymru a sut i arfer yr hawl honno.